# Pecyn o Weithgareddau Traveline Cymru ar gyfer Gwyliau'r Haf

traveline.cymru

# Cynnwys

**1**.............................................. Lliwiwch Fi!
**2**................. Bingo Mynd am Dro yn yr Haf
**3**........................................ Addurno Helmed
**4**............................. Gweld y Gwahaniaeth
**5**.......................... Creu Geiriau Trafnidiaeth
**6**................................... Her Ddarllen yr Haf
**7**.............................. Rhestr Ddarllen yr Haf
**8**............................. Fy Nyddiadur Gwyliau
**9**.......................... Rysáit: Fflapjacs Banana
**10**. Rysáit: Cacennau Creision Ŷd Siocled

Croeso i Becyn o Weithgareddau Traveline Cymru ar gyfer Gwyliau'r Haf! Diben y pecyn hwn yw cadw eich plant yn brysur dros wyliau'r haf, boed law neu hindda.


Os nad oes gennych beiriant argraffu gartref, ewch i'ch llyfrgell leol er mwyn argraffu copi lliw neu ddu a gwyn o'r pecyn yno! Gallwch argraffu'r pecyn cyfan, rhai tudalennau'n unig neu sawl copi o un dudalen (byddai hynny'n syniad da os ydych yn bwriadu defnyddio ein tudalen ar gyfer Dyddiadur Gwyliau).

Oddi wrth,

Aelodau tîm Traveline Cymru

# Lliwiwch Fi!


Faint o liwiau gwahanol y gallwch eu defnyddio i liwio'r golygfeydd hafaidd hyn?






# Bingo Mynd am Dro yn yr Haf

Mae mynd am dro'n ffordd wych o gadw'n heini ac yn iach. Ticiwch bob un o'r pethau a welwch wrth fynd am dro yn yr haf. Peidiwch â gorffen nes eich bod wedi'u gweld i gyd!



Bws




Trên



Beic




Sgwter




Arwydd





Tacsi




Gwenynen



Iâr fach yr haf




Ci




Aderyn




Coeden



Blodyn




Blwch postio



Giât



Mainc



Goleuadau traffig

?

Wyddech chi fod modd i chi gynllunio eich llwybrau cerdded gan ddefnyddio Cynlluniwr Cerdded Traveline Cymru? Ewch i'n gwefan, cliciwch ar yr eicon cerdded ar ein Cynlluniwr Taith, a nodwch fan cychwyn a man gorffen eich taith!

# Addurno Helmed

Mae'n bwysig gwisgo helmed bob amser pan fyddwch yn defnyddio eich beic neu'ch sgwter, er mwyn cadw'n ddiogel. Rhowch gynnig ar addurno'r helmed hon – cofiwch sicrhau ei bod yn lliwgar ac yn llachar fel bod pobl yn gallu eich gweld!



Wyddech chi fod modd hefyd i chi gynllunio eich llwybrau beicio gan ddefnyddio Cynlluniwr Beicio Traveline Cymru? Ewch i'n gwefan, cliciwch ar yr eicon beic ar ein Cynlluniwr Taith, a nodwch fan cychwyn a man gorffen eich taith!

# Gweld y Gwahaniaeth

Allwch chi weld 6 gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma, a rhoi cylch o'u hamgylch? Os ydych wedi argraffu copi du a gwyn o'ch pecyn gweithgareddau, ceisiwch edrych ar y lluniau ar eich dyfais electronig er mwyn i chi allu gweld unrhyw wahaniaethau rhwng y lliwiau!







1) Yr un sy'n mynd â'r ci am dro, 2) Yr awyren, 3) Lliw'r iâr fach yr haf, 4) Y wiwer, 5) Lliw'r helmed, 6) Lliw'r esgid

# Creu Geiriau Trafnidiaeth

Rhowch drefn ar y llythrennau er mwyn creu 6 gair gwahanol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth!

1. R T N Ê
2. S B W
3. G S E T R W
4. G R R W R Y R
5. T Y O N C
6. E E L M D H

1)________________ 4)________________

2)________________ 5)________________

3)________________ 6)________________



1) Trên, 2) Bws, 3) Sgwter, 4) Gyrrwr, 5) Tocyn, 6) Helmed


# Her Ddarllen yr Haf


Drwy gydol gweddill gwyliau'r haf, rhowch gynnig ar ein her ddarllen a thiciwch bopeth oddi ar ein rhestr! Cofiwch fod gan eich llyfrgell leol lawer o lyfrau y gallwch eu benthyca. At hynny, gallwch brynu llyfrau ail-law o siop elusen neu hyd yn oed gyfnewid llyfrau gyda'ch ffrindiau!


| | | | |
|---|---|---|---|
| Darllen llyfr yn yr awyr agored | ☐ | Darllen llyfr am wyddoniaeth | ☐ |
| Darllen llyfr ar y bws neu'r trên | ☐ | Darllen llyfr ffantasi | ☐ |
| Darllen llyfr yn y gwely | ☐ | Darllen cylchgrawn | ☐ |
| Darllen llyfr gyda ffrind | ☐ | Darllen llyfr comics | ☐ |
| Darllen llyfr gydag aelod o'r teulu | ☐ | Darllen erthygl mewn papur newydd | ☐ |
| Ailddarllen un o'ch hoff lyfrau | ☐ | Darllen llyfr â chlawr gwyrdd | ☐ |
| Darllen llyfr sy'n gwneud i chi chwerthin | ☐ | Darllen llyfr â chlawr coch | ☐ |
| Darllen llyfr am anifeiliaid | ☐ | Darllen llyfr â chlawr glas | ☐ |
| Darllen cerdd | ☐ | Darllen llyfr â chlawr melyn | ☐ |
| Darllen llyfr am berson go iawn | ☐ | Ceisiwch ysgrifennu eich stori eich hun! | ☐ |

# Rhestr Ddarllen yr Haf


Os byddwch yn rhoi cynnig ar Her Ddarllen yr Haf, cymerwch olwg ar rai o'n hoff lyfrau isod...

























- **'You Can't Take An Elephant On Holiday'** gan Patricia Cleveland-Peck (3+ oed)
- **'There Is No Big Bad Wolf In This Story'** gan Lou Carter (3+ oed)
- **'I Love My Bike'** gan Simon Mole (3+ oed)
- **'Freddy And The New Kid'** gan Neill Cameron (5+ oed)
- **'Do Not Mess With The Mermaids'** gan Michelle Robinson (5+ oed)
- **'Sunflower Sisters'** gan Monika Singh Gangotra (5+ oed)
- **'The Great (Food) Bank Heist'** gan Onjali Q. Raúf (7+ oed)
- **'Aldrin Adams and the Cheese Nightmares'** gan Paul Howard (7+ oed)
- **'How to Be Brave'** gan Daisy May Johnson (9+ oed)
- **'Something I Said'** gan Ben Bailey Smith (9+ oed)
- **'Worst Holiday Ever'** gan Charlie Higson (11+ oed)
- **'Girl (In Real Life)'** gan Tamsin Winter (11+ oed)








# Fy Nyddiadur Gwyliau

**Dyddiad:**_____________ **Lleoliad:** _________________

**Sut roedd y tywydd:**



**Sut gwnaethom deithio:**




**Beth fwytais i heddiw:** or

**Gyda phwy roeddwn i heddiw:** or

**Pa ran o'r dydd wnes i ei hoffi fwyaf:** or

**Sut roeddwn yn teimlo:**



# Rysáit Fflapjacs Banana



**Cynhwysion:**

- 250g o geirch
- 3 banana wedi'u stwnsio
- 50g o fenyn wedi toddi
- 1 llwy de o fêl
- 1 llwy de o nytmeg
- 1 llwy de o sinamon
- Unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu (ychydig o ffrwythau sych neu ddarnau bach o siocled efallai)
- 50g o siocled wedi toddi i'w roi ar y top

**Yn gwneud digon i:** 30 **Amser paratoi:** 15 munud
**Amser pobi:** 15 munud (+ 1 awr i oeri)

**1)** Gofynnwch i oedolyn eich helpu i gynhesu'r ffwrn nes bod y tymheredd yn cyrraedd 180 gradd (ffwrn ffan). Yna, defnyddiwch bapur pobi i leinio tun pobi sgwâr, a phwyswch y cynhwysion i gyd!

**2)** Rhowch y menyn mewn powlen sy'n addas ar gyfer y ffwrn ficro-don, a gofynnwch i oedolyn roi'r menyn yn y ffwrn ficro-don am ychydig eiliadau i'w doddi.

**3)** Mewn powlen, defnyddiwch fforc i stwnsio'r 3 banana nes eu bod yn feddal ac yn slwtsh. Yna, ychwanegwch y ceirch, y menyn wedi toddi a'r mêl. Defnyddiwch lwy bren i gymysgu'r cyfan.

**4)** Yna, ychwanegwch y sinamon, y nytmeg ac unrhyw ddanteithion eraill yr hoffech eu cynnwys yn eich fflapjac. Gallech ychwanegu ychydig o ffrwythau sych, darnau bach o siocled neu falws melys!

**5)** Rhowch y cymysgedd fflapjacs yn y tun pobi a defnyddiwch gefn eich llwy bren i'w daenu ar draws y tun.

**6)** Rhowch y tun yn y ffwrn am 15 munud. Pan fydd y fflapjac yn barod, gofynnwch i oedolyn dynnu'r tun allan o'r ffwrn a gadewch i'r fflapjac oeri. Yna, gallwch droi'r tun drosodd er mwyn cael y fflapjac allan a'i gosod ar blât.

**7)** Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael help gyda'r cam nesaf. Yn ofalus iawn, toddwch y siocled mewn powlen wydr dros ddŵr berw mewn sosban.

**8)** Taenwch y siocled yn ofalus dros dop y fflapjac ac yna ei rhoi yn y rhewgell am 30 munud i 1 awr. Pan fydd y siocled wedi caledu, torrwch y fflapjac yn 30 o sgwariau bach!



@ellies.muffin.tops on Instagram

# Rysáit Cacennau Creision Ŷd Siocled

**Cynhwysion**

- 50g o fenyn
- 100g o siocled llaeth neu siocled tywyll, wedi'i dorri yn ddarnau
- 3 llwy fwrdd o driog melyn
- 100g o greision ŷd
- Unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu (ychydig o resins, malws melys neu ddarnau bach o siocled efallai)



**Yn gwneud digon i:** 12 **Amser paratoi:** 10 munud
**Amser pobi:** 5 munud (+ amser i oeri)

**1)** Pwyswch y cynhwysion. Gall plant hŷn wneud hynny ar eu pen eu hunain dan oruchwyliaeth, a gall plant bach helpu i arllwys y cynhwysion ar y glorian neu ddefnyddio llwy i'w rhoi arni.

**2)** Rhowch y menyn, y darnau o siocled llaeth neu siocled tywyll a'r 3 llwy fwrdd o driog melyn mewn sosban neu mewn powlen sy'n addas ar gyfer y ffwrn ficro-don. Rhowch 100g o greision ŷd mewn powlen fawr arall.

**3)** Gofynnwch i oedolyn eich helpu gyda'r cam nesaf! Toddwch y menyn, y siocled a'r triog melyn yn y sosban dros wres isel, neu am ychydig eiliadau yn y ffwrn ficro-don. Gadewch i'r cymysgedd oeri ychydig cyn ei arllwys dros y creision ŷd.

**4)** Defnyddiwch lwy bren i gymysgu'r cynhwysion yn ofalus nes bod y creision ŷd wedi'u gorchuddio yn gyfan gwbl. Ychwanegwch unrhyw gynhwysion eraill yr hoffech eu defnyddio er mwyn gwneud eich cacennau'n fwy blasus fyth – ychydig o resins, malws melys neu ddarnau bach o siocled efallai.

**5)** Defnyddiwch lwy i roi'r cymysgedd mewn 12 o gasys cacennau bach sydd wedi'u gosod ar dun myffins (neu astell bobi os nad oes gennych dun myffins).

**6)** Rhowch y cacennau creision ŷd siocled yn yr oergell i galedu, ac yna ewch ati i'w mwynhau!



BBC Good Food